

## **Sesiwn Gwrandawriad 10**

# **DYNODIADAU A SAFLOEDD AMGEN: GOGLEDD GWYNEDD**

**9.30 yb, Dydd Mawrth 27 Medi 2016**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd  
Gwynedd a Môn**



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i nodi eu hymateb i'r materion a'r pynciau a godwyd gan yr Arolygydd ar gyfer y Gwrandawriad yn ymwneud a Dynodiadau a Safleoedd Amgen Gogledd Gwynedd yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud ag elfennau o'r Cynllun a godwyd gan yr Arolygydd fel materion i'w trafod. Lle bo'n briodol mae'r Datganiad yn edrych ar ac yn croesgyfeirio at y prif ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun megis canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, yr Aseiad Cynaliadwyedd, y dogfennau cefndir a Phapurau Testun ategol. Rhoddir rhifau cyfeirnod y dogfennau lle y bo'n briodol.

At ddibenion eglurder o fewn y datganiad hwn mae unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Cynllun Adnau a/neu Newid â Ffocws i'r Cynllun, wedi'i ddangos mewn print trwm **Coch** ac wedi'i thanlinellu. Dangosir unrhyw Newid â Ffocws i'r Cynllun Adnau mewn print **Trwm** wedi'i danlinellu.

## BANGOR

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- Rhan o SP270 – Tir gerllaw Ffordd Ty'n Clwt, Penrhosgarnedd, Bangor
- Rhif y Sylw - 1020 (Bleddyn Hughes 68 d/o David Holmes, Jones Peckover 1500)

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	Safle maes glas sydd tu allan i ffin ddatblygu'r Cynllun Adnau. Mae'r cynrychiolydd eisiau cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu i ddibenion preswyl i bobl leol sy'n gweithio'n lleol.
<b>c) Beth yw maint y safle a pha raddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	0.19ha - Yn seiliedig ar ganllawiau CDLI ar y Cyd o 30 annedd fesul hectar, gallai'r safle gynnwys 6 o anheddau.
<b>ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw.
<b>d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwyledig ar gyfer cyflenwi?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	Na. Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau ategol, sy'n cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (Papur Testun 6, PT.0013), yn dangos yn glir bod digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Bangor i ateb yr angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gynnwys y tir hwn o fewn y ffin ddatblygu.
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Na, mae digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir ar gyfer datblygu tai o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Bangor i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i gynnwys y safle yn y Cynllun ac ni ystyrir fod cynnwys safle amgen yn angenrheidiol i sicrhau fod CDLI yn gadarn. Felly, ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
	safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono.
<b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b>	<p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.</p>
<b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b>	<p>Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu tystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartïon â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002) . Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghorwyr statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- Tir oddi ar Ffordd Siliwen, Bangor
- Rhif y Sylw - 913 (Catrin Eames 3097 d/o Rhys Davies, Cadnant Planning 1366)

<b>CWESTIWN</b>	<b>YMATEB Y CYNGHORAU</b>
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	Safle maes glas sydd tu allan i ffin ddatblygu'r Cynllun Adnau. Mae'r cynrychiolydd eisiau cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu.
<b>c) Beth yw maint y safle a pha raddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	0.1ha. - Yn seiliedig ar ganllawiau CDLI ar y Cyd o 30 annedd fesul hectar, gallai'r safle gynnwys 3 annedd.
<b>ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw.
<b>d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	Na. Mae ffiniau datblygu'n cael eu tynnu o amgylch ffurf drefol aneddiadau. Ni ystyrir bod y safle dan sylw yn rhan o ffurf drefol Bangor. Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau ategol, sy'n cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (Papur Testun 6, PT.0013), yn dangos yn glir bod digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Bangor i ateb yr angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gynnwys y tir hwn o fewn y ffin ddatblygu.
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Na, mae digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir ar gyfer datblygu tai o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Bangor i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i gynnwys y safle yn y Cynllun ac ni ystyrir fod cynnwys safle amgen yn angenrheidiol i sicrhau fod CDLI yn gadarn.

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b></p>	<p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.</p>
<p><b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu tystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartion â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002) Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- C1 Parc Bryn Cegin, Bangor
- Rhif y Sylw - 786 (Tammy Hales, Bryn Cegin Cinema Campaign 2745]

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Safle Cyflogaeth a Ddiogelir o dan bolisi CYF1 y Cynllun Adnau</li> <li>• Safle Cyflogaeth Rhanbarthol Strategol</li> <li>• Defnydd B1, B2 &amp; B8</li> <li>• Mae'r ymatebydd yn dymuno newid statws y dyraniad cyflogaeth er mwyn i ddefnyddiau A1, A3, C1, D2 a D8 fod yn dderbyniol ar y safle.</li> </ul>
c) Beth yw maint y safle a pha raddfa / faint o unedau a gynigir?	Amherthnasol
ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?	<p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r diwygiad o'r safle hwn, mater i'r cynrychiolydd yw dangos na fyddai'r safle yn gyflenwadwy heb y newidiadau.</p> <p>Mae gan y safle ganiatâd cynllunio llawn ac mae'n elwa o fod â seilwaith h.y. mynediad a ffyrdd. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ffisegol i ddatblygu.</p>
d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?	Mae'r safle hwn yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei farchnata ganddi, a'r hinsawdd economaidd presennol a chyflwr y farchnad yw'r prif rwystr i ddatblygu'r safle. Yn ddiweddar gofynnodd Llywodraeth Cymru am ddatganiadau o ddi-ddordeb ar gyfer safleoedd amgen er mwyn sbarduno datblygiad y safle.
dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?	Ni ddylai statws cynllunio'r safle hwn gael ei ddiwygio i gynnwys y dosbarthiadau defnydd a restrir uchod. Fodd bynnag, mae Polisi CYF4 yn hwyluso defnydd amgen ar safleoedd cyflogaeth pan fo'r cyfiawnhad dros hyn wedi cael ei dderbyn. Byddai angen hefyd darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd er mwyn sicrhau bod y defnydd amgen yn cydymffurfio â pholisi. Er mwyn sicrhau eglurder, cynigiwyd newid bychan i'r Cynllun mewn ymateb i sylwadau a gyflwynwyd ar y cam Adnau (NB10) sy'n datgan y bydd y CCA ar gyflogaeth yn cynnwys adran mewn perthynas â newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth.
e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?	Ydyw, cefnogir y dyraniadau cyflogaeth a'u dosbarthiadau defnydd gan sylfaen dystiolaeth y Cynllun. Ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i newid statws y dyraniad yn y Cynllun.
f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r diwygiad i'r safle hwn, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p>amcanion strategol y Cynllun?</p>	
<p><b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu tystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartion â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002). Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addaswydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addaswydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghorion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cyngorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p> <p>Asesodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth (DC.004) addaswydd pob safle cyflogaeth i asesu'r tebygolrwydd y byddai'r safleoedd yn cael eu datblygu o fewn cyfnod y Cynllun. Yn dilyn yr asesiad o addaswydd safleoedd (yn seiliedig ar ffactorau lleoliadol a seilwaith) rhannwyd y safleoedd yn rhai prif safleoedd a safleoedd eilaidd. Y prif safleoedd yw'r rhai y credir sydd fwyaf deniadol i'r farchnad ac sydd fwyaf tebygol o gael eu datblygu yn y tymor byr. Gall safleoedd eilaidd fod mewn lleoliadau israddol o ran mynediad / presenoldeb marchnad o gymharu â phrif safleoedd, ond eu bod yn cadw rôl bwysig gan eu bod yn cynrychioli cyfleoedd sy'n berthnasol iawn i'r Rhaglen Ynys Ynni, neu'n diwallu angen lleol mewn ardaloedd mwy anghysbell neu wledig. O fewn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth, mae Bryn Cegin wedi cael ei gydnabod fel Prif Safle Cyflogaeth</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cyngorau yn hyrwyddo'r diwygiadau i'r safle hwn, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p> <p>Mae'r Cyngorau'n cefnogi'r safle hwn. Aseswyd yr holl ddyraniadau yn erbyn y Fframwaith AC a geir yn</p>



CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?	yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Chwef 2016) (CDLL.007).

a) **Cyfeirnod/ Rhif Safle:**

- Dim yn safle-benodol
- Rhif y Sylw - 839 (Branwen Thomas, Menter Iaith Bangor 2762)
- Dywed y ymatebydd fod rhaid cynnal ymchwil cadarn sy'n ymwneud yn benodol â Bangor i ganfod yr angen gwirioneddol am dai yn y ddinas ac na ddylid ystyried rôl Bangor fel un o ddarparu maestref noswyllo ar gyfer gweithwyr o ogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, a allai danseilio'r iaith Gymraeg.

Ymateb:

- Mae Papur Testun 4A, sydd wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd o nifer o ffynonellau, megis y dystiolaeth a baratowyd gan Edge Analytics "Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Gwynedd ac Ynys Môn: Tybiaethau, Methodoleg a Chanlyniadau Senario" (2014), Esbonio'r gwahaniaeth rhwng amcanestyniadau sail-2008 a sail-2011 Llywodraeth Cymru i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybodaeth am y materion a'r cyfiawnhad dros y lefel o dwf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn asesu a nodi'r galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, yn unol â disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Paratôdd Edge Analytics gyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, newidiadau economaidd ac adeiladu tai. Yn ogystal, astudiwyd nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad dai leol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welwyd yn y Cynllun Adnau yn ffordd gadarnhaol o gynllunio o ran datblygu ar raddfa. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd a all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill ar ddatblygu.
- Bydd y strategaeth ofodol yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio i leoliadau sy'n gynaliadwy yn nhermau maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafniadaeth, cymdeithasol a chynhwysiant amgylcheddol. Felly ceir patrwm cynaliadwy o anheddiad gyda chymunedau hyfyw.
- Bu'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth wrth lunio gweledigaeth, amcanion, strategaethau a pholisïau'r Cynllun ers ei ddechrau. Ystyriwyd effeithiau posibl y Cynllun ar yr iaith Gymraeg yn ystod y broses Asesiad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol

Strategol), a gafodd ei lywio gan Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Dylid rhoi sylw i wahanol bolisiâu'r Cynllun a dogfennau pwnc, yn ogystal â'r CCA ar gyfer: rhwymedigaethau cynllunio, cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, y math a'r gymysgedd o dai, a briffiau datblygu.

- Gweler hefyd Ddatganiadau'r Cynghorau mewn ymateb i faterion a godwyd yng nghyswllt Sesiynau Gwrandawriad 1 a 2.

**a) Cyfeirnod/ Rhif Safle:**

- **Dim yn safle-benodol**
- **Rhif y Sylw - 939 (Branwen Thomas, Menter Iaith Bangor 2762)**
- Cred yr ymatebydd bod y ffigwr twf tai ar gyfer Bangor yn rhy uchel a gall fod yn niweidiol i'r iaith Gymraeg.

**Ymateb:**

- Sefydlwyd y strategaeth ddisbarthu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Strategaeth a Ffefrir y Cynllun ar sail y dystiolaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Mewn termau gofodol, mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau bod polisiâu manwl a strategol y Cynllun yn hyrwyddo datblygiadau sy'n ymdrin â disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Bydd yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio i ganolfannau sy'n gynaliadwy yn nhermau maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cymdeithasol a chynhwysiant amgylcheddol. Felly ceir patrwm cynaliadwy o anheddiad gyda chymunedau hyfyw.
- Bu'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth wrth lunio gweledigaeth, amcanion, strategaethau a pholisiâu'r Cynllun ers ei ddechrau. Ystyriwyd effeithiau posibl y Cynllun ar yr iaith Gymraeg yn ystod y broses Asesiad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei lywio gan Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Dylid rhoi sylw i wahanol bolisiâu'r Cynllun a dogfennau pwnc, yn ogystal â'r CCA ar gyfer: rhwymedigaethau cynllunio, cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, y math a'r gymysgedd o dai, a briffiau datblygu.
- Gweler hefyd Ddatganiadau'r Cynghorau mewn ymateb i faterion a godwyd yng nghyswllt Sesiynau Gwrandawriad 1 a 2.

**a) Cyfeirnod/ Rhif Safle:**

- **Dim yn safle-benodol**
- **Rhif y Sylw - 942 (Branwen Thomas, Menter Iaith Bangor 2762)**
- Nid yw'r cynrychiolydd yn credu y dylid adeiladu mwy o lety myfyrwyr pwrpasol ym Mangor, sy'n cael effaith negyddol ar y gymuned leol.

- Ymateb:

Mae Maen Prawf 1 ym Mholisi TAI 6 yn chwilio am dystiolaeth i gefnogi unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn nhermau angen. Ystyrir bod y ddarpariaeth o lety a adeiladwyd i bwrpas yn hyrwyddo rhyddhau stoc tai presennol i'r farchnad dai gyffredinol, a all gynorthwyo gyda chwrdd â'r twf tai o'r boblogaeth bresennol. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n flynyddol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

a) Cyfeirnod/ Enw Safle:

- T2, Cyn Gae Chwarae Friars, Bangor
- Rhif y Sylw - 113 & 1419 (Cyng Elin Walker Jones 2760)

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?	Mae'r safle wedi ei ddynodi fel dyraniad tai. Nid yw'n elwa o ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mae'r Cynrychiolydd yn ceisio dileu dynodiad tai T2 o'r Cynllun..
c) Beth yw maint y safle a pha raddfa / faint o unedau a gynigir?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 1.44ha</li> <li>• Lefel twf dangosol (polisi TAI14) – 43 uned</li> </ul>
ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?	<p>Cred y Cynghorau nad oes unrhyw seilwaith anorchfygol neu gyfyngiadau eraill a fyddai'n llesteirio datblygiad y safle o fewn cyfnod y Cynllun. Nid yw cyflenwi'r safle yn dibynnu ar unrhyw brosectau seilwaith strategol ac mae polisïau'r Cynllun yn nodi sut y gellir rheoli effeithiau posibl y datblygiad y safle.</p> <p>Er gwaethaf hyn, mae'r Cynllun yn cynnwys lwfans llithriad o 10% ac felly ystyria'r Cynghorau bod digon o hyblygrwydd yn y Cynllun.</p> <p>Bydd y cyflenwad o dai yn cael ei fonitro yn y broses Adrodd Monitro Blynyddol gan ddefnyddio'r data a gafwyd drwy'r Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Felly bydd y fframwaith monitro yn nodi ardaloedd lle efallai bydd angen ystyried unrhyw gamau gweithredu er mwyn hwyluso cyflenwi safleoedd, cynllun posibl neu adolygiadau polisi, gan gynnwys unrhyw ddynodi safleoedd lle mae materion cyflenwadwyedd Cynllun sylweddol yn codi</p>
d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?	Cyfeirier at Atodiad 1, Rhestr Safleoedd o Bapur Testun 20A: Tafllwybr Tai (DB.023).
dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr	Dylai. Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun, casglwyd amrywiaeth helaeth o dystiolaeth gefnogol sy'n dangos y tai sydd eu hangen yn ystod cyfnod y CDLI ar y Cyd. Mae'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<b>anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	yn gyflenwadwy o fewn cyfnod y Cynllun i alluogi'r CDLI ar y Cyd i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn ardal y Cynllun hyd at 2026.
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Ydyw. Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun, casglwyd amrywiaeth helaeth o dystiolaeth gefnogol sy'n dangos y tai sydd eu hangen yn ystod cyfnod y CDLI ar y Cyd. Mae'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun yn gyflenwadwy o fewn cyfnod y Cynllun i alluogi'r CDLI ar y Cyd i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn ardal y Cynllun hyd at 2026.
<b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b>	Mae'r Cynghorau'n cefnogi'r safle hwn yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun. Golyga Strategaeth Ofodol y Cynllun bod 55% o'r gofyniad tir tai cyffredinol a nodwyd ar gyfer ardal y Cynllun yn cael ei gyfeirio i'r Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol oherwydd mai'r rhain yw'r aneddiadau mwyaf yn ardal y Cynllun lle ceir crynodiad o gyfleusterau, cyfleoedd cyflogaeth ac opsiynau trafndiaeth.
<b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b>	<p>Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu tystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartïon â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002) Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p> <p>Mae'r Cynghorau felly o'r farn bod cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu a'i ddynodi yn seiliedig ar ddefnyddio methodoleg asesu gadarn a chredadwy.</p>
<b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r</b>	Mae'r Cynghorau'n cefnogi'r safle hwn. Aseswyd yr holl ddyraniadau yn erbyn y Fframwaith AC a geir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Chwef 2016) (CDLL.007).

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- **Dim yn safle-benodol**
- **Rhif y Sylw - 969 (Cyng Elin Walker Jones 2760)**
- Dywed y Cynrychiolydd y dylid defnyddio'r Stryd Fawr a chanol y ddinas hefyd ar gyfer tai, yn ogystal â masnach ac adloniant. Ni ddylai adeiladau uwch na thri llawr gael eu caniatáu wrth adeiladu fflatiau neu neuaddau myfyrwyr ar safleoedd nad ydynt ar gampws.

**Ymateb:**

- Mae'r Cynllun yn hwyluso datblygiad preswyl yng nghanol trefi cyn belled nad yw'n cael effaith niweidiol ar eu hyfywedd a bywiogrwydd.
- Mae'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (PT.013) wedi ystyried y potensial ar gyfer darparu unedau tai trwy drosi adeiladau ( 'fflatiau uwchben siopau', 'rhannu tai presennol', 'addasu adeiladau masnachol' ac 'addasiadau eraill'). Canfu'r astudiaeth hon y gellid o bosibl gyflenwi 114 o unedau drwy hyn ym Mangor yn ystod cyfnod y Cynllun.
- Byddai Polisi TAI 6 ('llety myfyrwyr pwrpasol') yn ymdrin â cheisiadau am lety i fyfyrwyr. Mae uchder datblygiadau o'r fath yn ffactor a fydd yn cael ei ystyried ar y cam cais cynllunio. Bydd angen ystyried y manylion y cais ar sail ei deilyngdod ei hun, yn unol â gofynion y polisïau megis Polisi PCYFF2, 'Dylunio a Ffurio Lle'.

## CAERNARFON

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- **Safle Posib SP606, Tir gerllaw Glan Seiont, Caernarfon**

- Rhif y Sylw - 990 [Aporis Trading LLP (3151) d/o Rhys Davies, Cadnant Planning (1366)]

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?	Safle maes glas sydd tu allan i ffin ddatblygu'r Cynllun Adnau. Mae'r cynrychiolydd eisiau cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu a dynodi ar gyfer tai.
c) Beth yw maint y safle a pha raddfa / faint o unedau a gynigir?	0.8ha - Yn seiliedig ar ganllawiau CDLI ar y Cyd o 30 annedd fesul hectar, gallai'r safle gynnwys 24 o anheddau.
ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw.
d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?	Na. Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau ategol, sy'n cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (Papur Testun 6, PT.0013), yn dangos yn glir bod digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Caernarfon i ateb yr angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gynnwys y tir hwn o fewn y ffin ddatblygu.
e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?	Na, mae digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir ar gyfer datblygu tai o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau i Gaernarfon i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i gynnwys y safle yn y Cynllun ac ni ystyrir fod cynnwys safle amgen yn angenrheidiol i sicrhau fod CDLI yn gadarn.
f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu tystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartïon â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002). Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- SP586, Tir gerllaw Tyddyn Pandy, Caernarfon
- Rhif y Sylw - 989 [George Denham (34) d/o Owain Wyn (1195)]

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
----------	--------------------

<b>CWESTIWN</b>	<b>YMATEB Y CYNGHORAU</b>
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	Safle maes glas sydd tu allan i ffin ddatblygu'r Cynllun Adnau. Mae'r cynrychiolydd eisiau cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu a dynodi ar gyfer tai.
<b>c) Beth yw maint y safle a pharaddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	4.15ha - Yn seiliedig ar ganllawiau CDLI ar y Cyd o 30 annedd fesul hectar, gallai'r safle gynnwys 125 o anheddau.
<b>ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw.
<b>d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	Na. Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau ategol, sy'n cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (Papur Testun 6, PT.0013), yn dangos yn glir bod digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Caernarfon i ateb yr angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gynnwys y tir hwn o fewn y ffin ddatblygu.
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Na, mae digon o dir wedi'i ddynodi a chyfleoedd hap ar gyfer datblygu tai o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau i Gaernarfon i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i gynnwys y safle yn y Cynllun ac ni ystyrir fod cynnwys safle amgen yn angenrheidiol i sicrhau fod CDLI yn gadarn.
<b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn</b>	Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu tystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor



CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>bartion â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002). Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>

## BETHESDA

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- Tir gerllaw Maes Coetmor, Bethesda
- Rhif y Sylw - 1200 (RCH Douglas Pennant 3070 d/o Charlene Sussums-Lewis, Carter Jonas 2829)

<b>CWESTIWN</b>	<b>YMATEB Y CYNGHORAU</b>
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	Safle maes glas sydd tu allan i ffin ddatblygu'r Cynllun Adnau. Mae'r cynrychiolydd eisiau cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu a dynodi ar gyfer tai.
<b>c) Beth yw maint y safle a pharaddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	2.46ha - Yn seiliedig ar ganllawiau CDLI ar y Cyd o 30 annedd fesul hectar, gallai'r safle gynnwys 74 o anheddau.
<b>ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw. Gwrthodwyd safle cais cynllunio yn ddiweddar ar sail diffyg gwybodaeth ddigonol a derbyniol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r gallu i asesu'n llawn yr effaith ar rywogaethau a choed a ddiogelir ar y safle. Apeliodd yr ymgeisydd yn erbyn hyn ar 22 Ebrill 2016.
<b>d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwyliedig ar gyfer cyflenwi?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	Na. Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau ategol, sy'n cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (Papur Testun 6, PT.0013), yn dangos yn glir bod digon o gyfleoedd hap a darpariaeth banc tir o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Bethesda i ateb yr angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gynnwys y tir hwn o fewn y ffin ddatblygu.
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Na, mae digon o gyfleoedd hap ar gyfer datblygu tai o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau i Fethesda i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i gynnwys y safle yn y Cynllun ac ni ystyrir fod cynnwys safle amgen yn angenrheidiol i sicrhau fod CDLI yn gadarn.
<b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>ff) A yw proses y Cyngor ar</b>	Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu dystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartïon â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002). Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>

## PENYGROES

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- Tir gerllaw Stad Ddiwydiannol, Penygroes
- Rhif y Sylw - 926 (Robert Jones 3107 d/o Rhys Davies, Cadnant Planning 1366)

<b>CWESTIWN</b>	<b>YMATEB Y CYNGHORAU</b>
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	Safle maes glas sydd tu allan i ffin ddatblygu'r Cynllun Adnau. Mae'r cynrychiolydd eisiau cynnwys y safle o fewn y ffin ddatblygu i ddarparu cymysgedd o ddatblygiadau masnachol, cymunedol a hamdden.
<b>c) Beth yw maint y safle a pharaddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	2.13ha
<b>ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw.
<b>d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	Na. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno tystiolaeth gadarn i ddangos yr angen am ddefnyddiau masnachol, cymunedol neu hamdden ychwanegol yn yr anheddiad. Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r datblygiad yn gyflenwadwy nac yn hyfyw. Felly mae'r bwriad yn hapfasnachol o ran natur. Mae'r polisiau o fewn y Cynllun yn cynnwys polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf (ISA2, CYF3, PS12 a MAN6), a fyddai'n cael eu defnyddio i ystyried cynigion ar gyfer y mathau o ddatblygiad a grybwyllir uchod. Gallai lleoliad yn union gerllaw'r ffin ddatblygu gael ei gefnogi ar yr amod bod y safle'n addas a bod yr holl brofion eraill yn cael eu bodloni.
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Na. Gweler y sylw blaenorol ynghylch diffyg tystiolaeth. Mae'r polisiau o fewn y Cynllun yn hwyluso'r mathau o ddatblygiad a grybwyllir uchod ac yn cynnwys y posibilrwydd o ddatblygu ar safleoedd a leolir union gerllaw'r ffin ddatblygu ar yr amod bod y safle'n addas.
<b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>ff) A yw proses y Cyngor ar</b>	Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu dystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartïon â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002). Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>

## LLANRUG

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- Tir gerllaw'r cyn Garej Hafod, Llanrug
- Rhif y Sylw - 1295 & 1123 [Ian Trevor (2930) d/o Owen Devenport (2755)]

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	Mae'r cynrychiolydd eisiau dileu dyraniad tai T46 (ID Cynr. – 1295) a dynodi tir gerllaw'r cyn Garej Hafod ar gyfer tai (ID Cynr. – 1123). Mae hwn y safle maes glas tu allan i'r ffin ddatblygu.
<b>c) Beth yw maint y safle a pharaddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	Tir gyferbyn â'r cyn Garej Hafod – 0.5ha - Yn seiliedig ar ganllawiau CDLI ar y Cyd o 30 annedd fesul hectar, gallai'r safle gynnwys 15 o anheddau
<b>ch ) A oes unrhyw rwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r safle o fewn cyfnod y Cynllun?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos fod y safle'n gyflenwadwy yn y pen draw.
<b>d) Beth yw'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cyflenwi?</b>	Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.
<b>dd) A ddylai'r safle gael ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad a / neu gael ei ddynodi?</b>	<p>Na. Na. Mae'r Cynllun Adnau a'r dogfennau ategol, sy'n cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (Papur Testun 6, PT.0013), yn dangos yn glir bod digon o dir wedi'i ddynodi, cyfleoedd hap a darpariaeth banc tir o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau ar gyfer Llanrug i ateb yr angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gynnwys y tir hwn o fewn y ffin ddatblygu..</p> <p><u>Dyraniad Tai T46</u> Cred y Cynghorau fod y safle'n gyflenwadwy ac nad oes seilwaith anorchfygol neu gyfyngiadau eraill a fyddai'n llesteirio datblygiad y safle o fewn cyfnod y Cynllun. Nid yw cyflenwi'r safle yn dibynnu ar unrhyw brosiectau seilwaith strategol ac mae polisiâu'r Cynllun yn nodi sut y gellir rheoli effeithiau posibl y datblygiad y safle. Mae'r safle yn elwa o fod â chaniatâd cynllunio ar gyfer 6 o anheddau; mae 4 wrthi'n cael eu hadeiladu ar y safle (JLAS 2016).</p>
<b>e) A yw'r safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?</b>	Na, mae digon o dir wedi'i ddynodi a chyfleoedd hap ar gyfer datblygu tai o fewn Ffin Ddatblygu'r Cynllun Adnau i Lanrug i gwrdd â'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun. Ystyrir bod y Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am ddull gwahanol neu safleoedd amgen i gyflenwi'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono. Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi, Strategaeth y Cynllun a ffactorau perthnasol eraill, ystyrir nad oes angen amlwg i gynnwys y safle yn y Cynllun ac ni ystyrir fod cynnwys safle amgen yn angenrheidiol i sicrhau fod CDLI yn gadarn.

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<p><b>f) Sut byddai'r safle amgen yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Cynllun?</b></p>	<p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos hyn.</p>
<p><b>ff) A yw proses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd yn rhesymol ac yn briodol ac a yw wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy?</b></p>	<p>Ydyw. Ystyrir bod proses dewis safle y Cyngor yn rhesymol ac yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Fel rhan o'r cyfnodau casglu dystiolaeth cynharach gwahoddodd y Cyngor bartion â diddordeb i gyflwyno Safleoedd Posib er mwyn cael syniad o'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu. Ceir manylion y Safleoedd Posib a gyflwynwyd yn y Gofrestr Safleoedd Posib (CDLL.002). Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w gweld ym Mhapur Testun1 (PT.001) ac yn cynnwys proses tri cham gadarn i asesu addasrwydd y safleoedd.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) ar y fethodoleg ar gyfer asesu'r Safleoedd Posib rhwng 18fed Awst a 15fed Medi 2011, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag ymgynghorwyr statudol ac adrannau mewnol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb cynghorau ym Mhapur Testun1A (PT.002).</p> <p>Mae'r fethodoleg dewis safle yn dangos yn glir y rhyngberthynas rhwng yr asesiad Safle Posib a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r opsiynau a archwiliwyd yn y Cynllun Adnau.</p>
<p><b>g) A yw'r dyraniad amgen a geisir wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol? A fyddai'r newid yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n golygu bod angen cynnal ailasesiad? Os felly, a gynhaliwyd y rhain? Beth oedd canlyniad y broses?</b></p>	<p>Mae'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd i gefnogi'r cynnig hwn.</p> <p>Gan nad yw'r Cynghorau yn hyrwyddo'r safle i'w gynnwys yn y Cynllun, mater i'r cynrychiolydd yw dangos aliniad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p> <p>Mae'r Cynghorau'n cefnogi safle T46. Aseswyd yr holl ddyraniadau yn erbyn y Fframwaith AC a geir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Chwef 2016) (CDLL.007).</p>

## BETHEL

**a) Cyfeirnod/ Enw Safle:**

- T58 Tir yn ymyl Saron, NF78, NF127, NF128, NF129 (Bethel i gyd)
- Rhif y Sylw - 036, 037, 038, 039 [John Williams (2085) d/o Rhys Davies, Cadnant Planning (1366)]

CWESTIWN	YMATEB Y CYNGHORAU
<b>b) Beth yw statws/ defnydd presennol y safle a beth yw'r defnydd arfaethedig?</b>	T58, Tynnwyd tir o Saron o'r Cynllun Adnau yn dilyn gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad Adnau. Roedd y rheswm dros gael gwared ar y dyraniad trwy Newid â Ffocws NF127 yn ymwneud â gwerth bioamrywiaeth y safle. Cynigiwyd dau safle amgen i gymryd lle'r dynodiad (NF128 & NF129). Mae'r ymatebydd yn ceisio adfer T58 i'r cynllun a dileu'r safleoedd amgen a nodwyd o dan NF128 & NF129
<b>c) Beth yw maint y safle a pha raddfa / faint o unedau a gynigir?</b>	1.36ha – 41 o anheddau
